**Pwyllgor Busnes** **B155-01(terfynol)**

COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** 8 Mai 2001
**Amser:** 9.00am
**Lleoliad:** Ystafell A3.10

**Yn bresennol:** Dr John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Roedd Marion Stapleton wedi ymddiheuro. Daeth Craig Stephenson yn ei lle.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC 119-01 (terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu ffurf derfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau byddent yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi. **Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC 145-01 (drafft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu ffurf ddrafft. Awgrymwyd mân newidiadau a fyddai'n cael eu hymgorffori yn y fersiwn derfynol i'w chyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. **Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi

3.1 **Paragraff 3.1** – Cytunwyd y dylid gwneud trefniadau i gynnal cyfarfod llawn arall ddydd Mercher 27 Mehefin gan y byddai'r Etholiad Cyffredinol yn

digwydd ar 7 Mehefin.  **Camau i'w cymryd: Marie Knox / Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

3.2 **Paragraff 3.4** – Cadarnhaodd Craig Stephenson mai'r bwriad oedd penderfynu ar y cynnig i gyflwyno cwestiynau i'r Trefnydd ar 17 Mai.

3.3 **Paragraff 4.21** – Dywedodd y Trefnydd ei bod eisoes yn arferol i Weinidogion gyflwyno rhaglen o ddeddfwriaeth ddrafft i'w pwyllgorau pwnc. Cytunodd y Cadeirydd i roi gwybod i Banel y Cadeiryddion ynghylch y trefniadau hyn. **Camau i'w cymryd: Y Dirprwy Lywydd**

3.4 Gofynnodd Jocelyn Davies a allai'r Weinyddiaeth roi gwybod i'r Aelodau am raglen holl ddeddfwriaeth arfaethedig y Cynulliad yn hytrach na pharatoi rhaglen ar wahân ar gyfer pob un o'r pwyllgorau pwnc. Dywedodd y Trefnydd bod y Weinyddiaeth yn bwriadu cyflwyno rhaglen o ddeddfwriaeth arfaethedig i gyd-fynd â rhaglen flynyddol y Llywodraeth. Roedd yn gobeithio hefyd y byddai modd cynnwys pwyllgorau'n gynt yn y gwaith o ddatblygu cynigion deddfwriaethol.

3.5 **Paragraff 5.2** Byddai Ysgrifenyddiaeth y Siambr yn anfon nodyn at yr holl Aelodau'n rhoi gwybod iddynt am y drefn y cytunwyd arni ar gyfer rhifo pwyntiau bwled mewn cynigion.  **Camau i'w cymryd:  Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

3.6 **Paragraff 9.1** – Gofynnodd y Cadeirydd pam bod y cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 23, adran 3 wedi'i gyflwyno mor hwyr. Byddai'r ddarpariaeth berthnasol yn dod i ben ar 9 Mai. Dywedodd y Trefnydd bod y cynnig wedi'i gyflwyno gyntaf i'r Pwyllgor Busnes ar ôl toriad y Pasg.

## <u>4. Is-ddeddfwriaeth</u>

### <u>Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001 (BC134-01 a anfonwyd at y Pwyllgor Busnes ar gyfer y cyfarfod ar 1 Mai)</u>

4.1 Dywedodd Nerys Arch na fu'r Cwnsler a fu'n gyfrifol am ddrafftio'r Gorchymyn hwn ar gael i roi cyngor ar feini prawf "Rhanbarthau Penodedig" ar gyfer cynhyrchwyr gwin. Byddai'n gallu rhoi adroddiad llawn yn y cyfarfod yr wythnos nesaf.  **Camau i'w cymryd: Nerys Arch i adrodd yn ôl yr wythnos nesaf**

### <u>Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001 (BC127-01 Diwygiedig)</u>

4.2 Dywedodd Nerys Arch bod neges e-bost wedi'i hanfon at y Rheolwyr Busnes yn sôn am yr amserlen ar gyfer gwneud y Gorchymyn, a fyddai'n gorfod dod i rym erbyn 1 Awst. Byddai angen anfon y Gorchymyn at y pwyllgor pwnc cyn diwedd Mai, er mwyn gallu cwblhau'r weithdrefn lawn cyn y dyiiad cychwyn. Fodd bynnag, roedd Clerc y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi dweud wrthi bod agenda'r Pwyllgor ym mis Mai'n llawn iawn. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor ei hun mewn gwell sefyllfa i

ddweud a fyddai ganddo ddigon o amser i ystyried y Gorchymyn. Er mwyn osgoi unrhyw ansicrwydd, gofynnodd a fyddai modd anfon copi o lythyrau at bwyllgorau oddi wrth Weinidogion ynghylch gorchmynion drafft at Glerc y Pwyllgor hefyd.
**Penderfynodd y Dirprwy Lywydd yn sgîl hynny y dylid cyfeirio'r Gorchymyn drafft at y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a nododd y dylai'r pwyllgor roi adroddiad ar y drafft o fewn tair wythnos.**

**Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2001.**

4.3 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC147-01 a oedd rhoi cyngor oddi wrth Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar drin y Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn safonol. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd yn sgîl hynny nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at y pwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Gofalwyr (Gwasanethau) a Thaliadau Uniongyrchol (Diwygio) (Cymru) 2001**

4.4 Dywedodd Nerys Arch y cynigiwyd y dylai Rheoliadau Gofalwyr (Gwasanaethau) a Thaliadau Uniongyrchol (Diwygio) (Cymru) 2001, Gorchymyn Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001 a Rheoliadau Plant Anabl (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2001, ddilyn y weithdrefn gyflymach fel rhan o gynnig cyfansawdd. Er hyn, roedd y Weinyddiaeth yn bwriadu rhoi cyfle i'r Aelodau fynegi barn ar egwyddorion y tri Gorchymyn mewn dadl ar wahân ar Wasanaethau Gofalwyr yn yr un cyfarfod llawn, cyn pleidleisio ar y Gorchmynion. Roedd y Rheolwyr Busnes yn fodlon â'r cynnig hwn.

4.5 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC148-01 a oedd yn rhoi cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar drin y Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn gyflymach. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd yn sgîl hynny nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at y pwyllgor pwnc.**

**Gorchymyn Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001**

4.6 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC149-01 a oedd yn rhoi cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar drin y Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn gyflymach. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd yn sgîl hynny nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at y pwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Plant Anabl (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2001**

4.7 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC150-01 a oedd yn rhoi cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar drin y Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn safonol.
**Penderfynodd y Dirprwy Lywydd yn sgîl hynny nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at y pwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2001**

4.8 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC151-01 a oedd yn rhoi cyngor oddi wrth Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar drin y Gorchymyn uchod. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn pryderu am batrwm y Gorchymyn. Teimlodd y byddai'r mwyafrif o bobl yn credu bod y Gorchymyn yn annealladwy am ei fod wedi'i ddrafftio fel cyfres o ddiwygiadau i Reoliadau blaenorol. Pan gynigir diwygiadau sylweddol i Reol Sefydlog bresennol, byddai'n well ail-argraffu'r gorchymyn gwreiddiol gan gynnwys y newidiadau arfaethedig. Gofynnodd y Cadeirydd i Nerys Arch fynegi ei bryderon i'r Cwnsler Cyffredinol er mwyn iddo'u hystyried. **Camau i'w cymryd: Nerys Arch**

4.9 Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft uchod at y pwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn safonol. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd yn sgîl hynny nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at y pwyllgor pwnc.**

**5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau**

5.1 Cafodd yr eitem lafar ar gwestiynau'r Cynulliad a dynnwyd yn ôl yn hwyr ei gohirio tan y cyfarfod yr wythnos nesaf.

**6. Pwyllgorau**

6.1 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC152-01 ar drin dadleuon mewn cyfarfod llawn ar adroddiadau cynnydd Rh.S.9.9 y pwyllgorau pwnc a'r Blaenraglenni Gwaith. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y Pwyllgor yn credu y dylai'r Gweinidogion ymateb i'r dadleuon. Dywedodd Kirsty Williams bod cadeiryddion y pwyllgorau yn atebol dros adroddiadau cynnydd eu pwyllgorau. Dywedodd y Trefnydd y byddai disgwyl i'r Gweinidogion ymateb i ddadleuon ar adroddiadau sylweddol y pwyllgor. Nid oedd yn gallu rhagweld unrhyw sefyllfa lle byddai Gweinidog yn gwrthod ymateb i ddadleuon o'r math hyn.

6.2 Dywedodd Kirsty Williams mai'r hyn a ddylai beri cryn bryder i'r Cadeiryddion, o ganlyniad i'r dadleuon cyfatebol y llynedd, oedd ceisio annog

Aelodau eraill heblaw am y rhai sy'n aelodau o'r pwyllgorau perthnasol i gyfrannu at y dadleuon ar adroddiadau'r pwyllgorau. Roedd y Cadeiryddion yn ymwybodol eisoes o farn aelodau eu pwyllgor. Byddai'r Rheolwyr Busnes yn trafod cyfrannu at ddadleuon ar adroddiadau'r pwyllgorau â'u grwpiau.

## 7. Busnes yn y dyfodol

### Busnes yr wythnos hon

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC139-01 a oedd yn manylu ar y busnes a oedd wedi'i gytuno ar gyfer y Cynulliad yr wythnos honno. Dywedodd y Trefnydd ei fod yn gobeithio y byddai'r busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod llawn y prynhawn hwnnw yn parhau fel a restrwyd. Nododd y byddai angen cynnig trefniadol er mwyn trafod cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 23 (gweler paragraff 3.5). Pwysleisiodd y Cadeirydd y dylid, os yn bosibl, osgoi cynigion tefniadol er mwyn hwyluso newidiadau i'r busnes sydd wedi'i drefnu. Er hyn, byddai'n trafod â'r Llywydd a ddylid caniatáu i'r cynnig trefniadol gael ei gyflwyno y prynhawn hwnnw.

7.2 Dywedodd y Trefnydd na ragwelid y byddai unrhyw ddatganiadau ar gyfer y cyfarfod llawn dydd Iau. Hysbysodd y Pwyllgor y byddai'r cynnig ar y ddadl o dan Reol Sefydlog 29 a gyflwynwyd gan Tom Middlehust, yn cael ei dynnu'n ôl oherwydd bod cynnwys y polisi yn fwy cymhleth na'r disgwyl. Dywedodd nad dyma'r tro cyntaf y cafwyd anawsterau mewn perthynas â chynnig Rheol Sefydlog 29 a bod angen trafod rhai materion. Byddai'n cyfeirio'r mater hwn at grwp Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad.

7.3 Gofynnwyd i'r Trefnydd roi sicrwydd na fyddai unrhyw gyhoeddiadau pwysig ar bolisi yn cael eu gwneud yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol. Roedd yn fodlon rhoi sicrwydd a gofynnodd am sicrwydd gan Blaid Cymru hefyd. Atebodd Jocelyn Davies bod yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer y gwrthbleidiau (o fewn gweithdrefnau busnes y Cynulliad) yn brin o'i gymharu â'r rhai sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, ac nad oedd yn gallu rhoi sicrwydd tebyg. Wedyn, dywedodd y Trefnydd ei fod wedi rhoi sicrwydd yn sgîl dymuniad y Llywydd na ddylid defnyddio sesiynau'r Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion ymgyrchoedd San Steffan, ond yn dilyn sylwadau Jocelyn Davies, efallai y byddai'n rhaid iddo ailfeddwl ynghylch rhoi sicrwydd ar y mater.

### Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau sy'n dechrau 15 a 22 Mai a 5 Mehefin 2001

7.3 Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC140-01).

7.4 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd am ei ddatganiad arfaethedig ynghylch trefnu busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau sy'n dechrau 15 a 22 Mai a 5 Mehefin 2001, oedd y dylai fwrw ymlaen fel yr amlinellir yn y datganiad busnes drafft.

## 8. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfod llawn

Dim.

## 9.  Diwygiadau i Reolau Sefydlog

Dim.

## 10. Dyfarniadau'r Llywydd

Dim.

## 11. Unrhyw fater arall

Dim.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**